

# DOLEN Y TAB 110

## 10 - 11 Mehefin 2022

### Oedfa Sul 12 Mehefin am 11

Y Parchedig Aled Edwards a Nia Williams  
gyda Rhiannon yn cyfeilio

---

### YR OEDFAON NESAF

#### Mehefin

19 Glenys Roberts ac Edwyn Evans

26 Ann ac Emlyn Davies

#### Gorffennaf

3 Oedfa Gymun yng nghwmni Eifiona, Audrey  
a Rhiannon Humphreys

10 Y Parchedig Aled Edwards

17 Oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul

24 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth

31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

---

### Hefyd ddydd Sul 12 Mehefin

#### 12.00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Pam Cram, Clydach.

#### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

#### 19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Capel Soar y Mynydd

Bydd Nia yn ymweld â Chapel Soar y Mynydd, lleoliad arbennig iawn sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 200 oed eleni. Cawn gipolwg ar y gwasanaeth cyntaf yn y Capel ers cyn y pandemig.

#### E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)



### NODYN I'CH ATGOFFA

Mae casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol bellach wedi dod i ben, a chasgliad Apêl Argyfwng Wcraïn yn ailddechrau. Byddwn yn dilyn y drefn arferol o gyfrannu drwy siec neu drosglwyddiad banc, neu gallwch roi cyfraniad mewn amlen yn dynodi Casgliad Wcraïn yn y blwch casglu ar fore Sul.

### DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH CEFNOGAETH BARHAUS

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

### 'DIWRNOD MAS 'YR YSGOL SUL'



AMELIA TRUST FARM

Supporting vulnerable people



Pawb i gyrraedd rhwng 10 - 10.30

**Dydd Sul 12fed o Fehefin**

Oedolion - £4.00 Plant am ddim



**Dewch a'ch picnic gyda chi**

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 14 Mehefin. Os oes unrhyw fater y carech ei godi, anfonwch air at Gwilym Huws:

gehpengwern@yahoo.co.uk/ 01443 225205 neu 07710 237327.

### RHESTR FLODAU

A ninnau bellach ar drothwy ail hanner 2022, gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Ar hyn o bryd mae nifer o Suliau i'w llenwi am weddill y flwyddyn y medrwrch ddewis o'u plith. Cofiwch, fodd bynnag, na fydd oedfa yma yn y Tabernacl ar y Suliau canlynol - 24 Gorffennaf, 7 a 14 Awst - pan fyddwn yn cyd-addoli yng Ngwaelod y Garth gydag aelodau Eglwys Bethlehem.



## Pigion Radio Cymru

### Pwy fydd yma 'mhen...?

Wrth wrando ar rai o arweinwyr yr enwadau yn trafod dirywiad y capeli eto fyth ar y rhaglen *Bwrw Golwg* fore Sul diwethaf, doedd dim modd peidio â dwyn i gof gân boblogaidd y bardd-bregethwr Ernest Llwyd Williams, 'Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?' Lluniwyd y gân yn wreiddiol yn ôl ym 1943 sy'n hynod o broffwydol gan fod casgliadau gwaith ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni yn honni y bydd holl gapeli Undeb yr Annibynwyr ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cau erbyn y flwyddyn 2040. Os felly, ai 'Neb' yw'r ateb i gwestiwn rhethregol y bardd yn ei gân?

Ond cyn digalonni'n llwyr, rhaid oedd mynd ati i ddarllen rhagor am ddilysrwydd y gwaith ymchwil. Syndod oedd deall bod y fethodoleg fathemategol a fabwysiadwyd i fesur dirywiad ein capeli yn gyfarwydd iawn i ni, sef y defnydd o'r llythyren 'R' y clywsom gymaint o sôn amdano mewn adroddiadau yn y wasg am dwf neu ostyngiad Covid-19 yn ystod cyfnod y pandemig. Dyma'r fethodoleg modelu a fabwysiadwyd i astudio 13 o enwadau Cristnogol er mwyn asesu pa mor gyflym y bydd aelodaeth pob enwad yn debygol o dyfu neu ostwng dros y blynyddoedd nesaf ar sail ffigurau dros y cyfnod ers 2000. Mae'r awdur yn pwysleisio mai rhagolwg ar sail tueddiadau dros gyfnod o amser yw'r casgliadau a wneir, ac nid yw'n anochel mai dyma fydd ffawd ein capeli. Tasg i'r eglwysi fydd penderfynu pa strategaethau y dylid troi atynt i wrthsefyll y trai.



Mae awdur yr ymchwil, Dr John Hayward, yn Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru yn Nhreforest, ac ef hefyd yw sylfaenydd yr uned ymchwil, *Church Growth Modelling*, sydd wedi bod yn defnyddio'r un fethodoleg i fesur yr amodau sydd eu hangen i sicrhau bod eglwysi'n tyfu a hynny ers 1999. Ni fydd pob un o gasgliadau'r gwaith wrth fodd aelodau'r Tabernacl, ond serch hynny mae'r arolwg yn un hynod ddadlennol a cheir ynddo rai awgrymiadau gwerthfawr.

**Am ragor o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf ewch i:**

<http://churchmodel.org.uk>

## Sut i logi'r Capel neu'r Ganolfan?

### E-bostiwrch

[gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)

### Neges Testun

07710 237327

### Ffonia

01433 225205

## Coffi a Sgwrs

### Canolfan y Tabernacl

**Bob bore Mawrth  
10.30-12.00**

**Efail Isaf**

**Croeso i bawb**



## BABI TWM



**Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl**

**10.00-11.30**



**Mehefin 6ed & 20fed,  
Gorffennaf 4ydd & 18fed**



**Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i  
plant/wyrion/wyresau**



## TAITH I ARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

**Dydd Iau 30.06.22**

Gadael Caerdydd: 09:30

Gadael yr Ardd: 16:30

**Pris yn cynnwys:**

Bws, mynediad a dwy awr  
o grwydro a sgwrsio gydag  
Adam yn yr Ardd!

**£25**

Diwrnod olaf i  
gofrestru: 15.06

I gofrestru:  
[mentercaerdydd.cymru/boedolion](http://mentercaerdydd.cymru/boedolion)

Am fwy o wybodaeth:  
[rachel@mentercaerdydd.cymru](mailto:rachel@mentercaerdydd.cymru)



Coach trip to the National  
Botanic Garden of Wales

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)